2027

# PROSBECTWS POCED



bangor.ac.uk

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

1884

**Prosbectws**
Poced

# Cynnwys:


4-5 Pam Bangor?
6-7 Lleoliad
8-9 Dinas Bangor
10-11 Map campws Bangor
12 Campws Wrecsam
13 Costau byw
14-17 Llety
18-19 Undeb y Myfyrwyr
20-21 Clybiau a chymdeithasau
22-23 Gwirfoddoli a lleoliadau
24 Astudio neu weithio dramor
25 Blwyddyn Sylfaen
26 Cefnogi myfyrwyr
27 Gyrfaoedd a chyflogadwyedd
28 Bwrsariaethau ac ysgoloriaethau
30 Darpariaeth cyfrwng Cymraeg
31 Ysgol Feddygol Gogledd Cymru
32-47 Cyrsiau
48-49 Ysgol Fusnes Albert Gubay
50-51 Sut i wneud cais


CROESO I
## BRIFYSGOL BANGOR



DIWRNODAU AGORED **2026**

Dydd Sadwrn **4 Gorffennaf**

Dydd Sul **16 Awst**

Dydd Sul **11 Hydref**

Dydd Sadwrn **24 Hydref**

Dydd Sadwrn **28 Tachwedd**



# Dy Ddyfodol **ar Waith**

Ym Mhrifysgol Bangor, mae **syniadau mawr** yn cwrdd â **chyfleoedd go iawn.**

Rydym yn enwog am ein rhagoriaeth academaidd, ein hymchwil o'r radd flaenaf, a'n cymuned wirioneddol groesawgar a byddwn yn dy helpu troi dy frwdfrydedd yn bwrpas.
Gyda mynyddoedd godidog a thraethau hyfryd ar garreg dy ddrws, ni fydd ysbrydoliaeth byth ymhell oddi wrthyt. Ym Mangor, mae dysgu'n mynd y tu hwnt i'r dosbarth - mae'n ymarferol, yn ddeinamig ac yn seiliedig ar y syniadau diweddaraf sy'n trawsnewid y byd. Byddi di’n cael dy ddysgu gan academyddion blaenllaw y mae eu darganfyddiadau'n trawsnewid diwydiannau, yn gwella bywydau ac yn mynd i'r afael â heriau byd-eang.

PAM **BANGOR?**

## Agosach nag y byddet yn ei feddwl

Gyda ffyrdd a chysylltiadau trafnidiaeth gwych i drefi a dinasoedd eraill, gan gynnwys Caer, Lerpwl, Manceinion ac Aberystwyth, ynghyd â threnau uniongyrchol i brifddinas Cymru, mae Bangor mewn lleoliad cyfleus os wyt ti eisiau teithio.

## Cymuned ddwyieithog

Ymuna â chymdeithasau fel côr 'Aelwyd JMJ', neu glybiau chwaraeon y Cymric a mwynhau bywyd a diwylliant yn un o'r cymunedau mwyaf Cymreigaidd yn y wlad.

## Wedi ymrwymo i gynaliadwyedd

Rydym yn yr 11% uchaf o brifysgolion mwyaf cynaliadwy'r byd (QS World University Rankings: Sustainability, 2025) - gan fod llunio'r dyfodol yn dechrau gyda'i ddiogelu.

## Y ddinas sy'n cynnig y gwerth gorau i fyfyrwyr

Mae Bangor wedi ei enwi fel y lle mwyaf fforddiadwy i astudio yn y Deyrnas Unedig (NoDepositFriend.com, 2024) felly gelli wneud yn fawr o fywyd prifysgol heb wario ffortiwn.

## Astudio yn Gymraeg

Gelli ddewis astudio dy radd gyfan neu ran ohoni trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae cymorth ariannol ar gael os wyt ti'n cofrestru i astudio modiwlau cyfrwng Cymraeg.





## Ymchwil chwyldroadol

Tyrd i astudio lle mae pethau'n digwydd - cei dy ddysgu gan arbenigwyr y mae eu gwaith yn mynd i'r afael â heriau'r byd go iawn. Mae 85% o'n hymchwil wedi ei raddio fel ymchwil sydd gyda'r gorau yn y byd neu sy'n rhagorol yn rhyngwladol (REF, 2021).

## Dy yrfa di, dy ddyfodol di

Breuddwydia freuddwydion mawr, a byddwn yn dy helpu eu gwireddu. Mae ein tîm Llwyddiant Myfyrwyr: Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd yma i dy helpu di gynllunio dy gamau nesaf a sefyll allan mewn byd cystadleuol. Mae hyfforddwyr gyrfaoedd, yn staff a myfyrwyr, yn y Stiwdio Gyrfaoedd newydd yn cynnig cefnogaeth gyda chynllunio gyrfa a gwneud cais am swyddi, ochr yn ochr â gweithdai a chyfleoedd i dy helpu sefyll allan.

## Byddi'n teimlo dy fod yn cael dy gefnogi yma bob amser

Mae dechrau yn y brifysgol yn gyffrous, ond mae'n newid mawr. Mae ein harweinwyr cyfoed cyfeillgar a'n tiwtoriaid personol cefnogol yn sicrhau bod gennyt rywun i droi ato bob amser, gan dy helpu i ddod o hyd i dy le, meithrin cysylltiadau a thyfu gyda hyder. Bydd gennyt rywun i droi ato bob amser, bob cam o'r ffordd.



# YMA CAWN
# **NEWID Y BYD**

**Ym Mangor, mae'r byd naturiol yn ein sbarduno ni i feddwl ar raddfa fawr a gweithredu mewn ffordd fwy beiddgar — o ran ein hymchwil rydym yn ei ddefnyddio yn y dosbarth, o ran ein gwerthoedd ac o ran ein hymrwymiad ni i'r dyfodol.**


Mae Bangor ar garreg drws Parc Cenedlaethol Eryri, ac wedi ei amgylchynu gan rai o dirweddau naturiol harddaf y Deyrnas Unedig.

Ar ôl taith fer mewn car neu ar fws, gelli ymlacio ar draethau euraidd Ynys Môn, ymweld â chestyll hanesyddol, padlo mewn llynnoedd tawel, neu gerdded i gopa un o fynyddoedd godidog Eryri.

# AMSER **TEITHIO**

**Amcangyfrif o'r amser teithio ar drên ac mewn car i Fangor (oriau):**

| | Trên | Car |
|---|---|---|
| **Lerpwl** | 1.5 | 1.5 |
| **Manceinion** | 2 | 2 |
| **Leeds** | 3.5 | 2.5 |
| **Birmingham** | 3 | 3 |
| **Caerdydd** | 4 | 4.5 |
| **Llundain** | 3.5 | 5 |



# PERTHYN YM **MANGOR**

**Hawdd mynd o gwmpas**
Mae Bangor yn ddinas fach, hawdd cerdded o'i hamgylch ac mae popeth sydd ei angen arnat yn agos. P'un a wyt ti'n mynd o dy lety i ddarlith, neu'n crwydro i ganol y ddinas am goffi gyda ffrindiau, dim ond cerdded neu feicio ychydig sy'n rhaid i ti ei wneud.

**Llawer i'w weld**
O swyn Pier y Garth gyda'i giosgau Fictoraidd lliwgar, i harddwch hanesyddol Eglwys Gadeiriol Sant Deiniol a Phont y Borth eiconig Thomas Telford dros y Fenai, mae Bangor yn llawn tirnodau sy'n disgwyl i ti eu darganfod.

**Dinas a'i llond o hanes**
Bangor yw dinas hynaf Cymru, ac agorodd y brifysgol ei drysau am y tro cyntaf ym 1884. Dros ganrif yn ddiweddarach, mae'r byd o'n cwmpas wedi newid, ond nid yw ein hymdrechion parhaus i symud ymlaen wedi newid.





## Cymuned myfyrwyr groesawgar

Mae Bangor wir yn ddinas i fyfyrwyr, gydag un o'r cymarebau uchaf rhwng myfyrwyr a thrigolion parhaol yn y Deyrnas Unedig. Mae tua un o bob pump o’n myfyrwyr yn siarad Cymraeg, a gall llawer o’r aelodau staff dy helpu a'th gefnogi yn y ddwy iaith.

## Popeth sydd ei angen arnat

O archfarchnadoedd a siopau i gaffis, bwytai a thafarndai clyd - mae popeth o fewn cyrraedd hawdd. Mae yna hefyd ddigon o siopau annibynnol a bwytai lleol, gan ychwanegu blas ychwanegol at fywyd myfyrwyr.

## Llawn diwylliant

Mae Bangor yn byrlymu â chreadigrwydd. Yng nghanol y campws, mae Pontio, canolfan gelfyddydau ac arloesi'r brifysgol, yn dod â phobl ynghyd i weld ffilmiau, dramâu, cerddoriaeth fyw a digwyddiadau creadigol - dyma'r lle perffaith i ymlacio a chael dy ysbrydoli.

## Dathlu amrywiaeth

Gyda myfyrwyr o dros 120 o wledydd, mae Bangor yn gymuned wirioneddol fyd-eang. Yma mae gwahanol ddiwylliannau, ieithoedd a safbwyntiau'n dod at ei gilydd - ac mae pawb yn perthyn.




# MAP CAMPWS BANGOR

## ADEILADAU **ALLWEDDOL AR Y CAMPWS**

1. Prif Adeilad y Brifysgol
2. Adeilad Cerddoriaeth
3. Pontio
4. Neuadd JP




**5** Adeilad Brigantia

**6** Y Ganolfan Rheolaeth

**7** Adeilad Brambell

**8** Adeilad Alun

**9** Hen Goleg

**10** Fron Heulog

# CAMPWS **WRECSAM**

Mae campws Wrecsam yn gartref i'n cyrsiau Radiograffeg. Mae'r campws hwn yn cynnig cymuned ddysgu glos lle byddi di'n dod i adnabod dy ddarlithwyr a dy gyd-fyfyrwyr yn iawn. Gyda chymhareb myfyrwyr-i-staff wych, byddi di’n elwa o gefnogaeth bersonol a digon o brofiadau ymarferol i dy helpu ffynnu, bob cam o'r ffordd.

Dim ond 10 munud o waith cerdded o ganol y ddinas, mae Wrecsam yn un o ddinasoedd mwyaf newydd Cymru, ar ôl cael statws dinas yn 2022 – mae'n lle bywiog sy'n gefndir perffaith i dy astudiaethau.



# COSTAU BYW

## Bangor: Y lle rhataf i astudio yn y Deyrnas Unedig

(NoDepositFriend.com, 2024)

Mae cost cyfleustodau, megis trydan, nwy a dŵr, ynghyd â WiFi wedi eu cynnwys os byddi di'n byw yn neuaddau'r brifysgol.

Gelli wylio'r ffilmiau diweddaraf yng Nghanolfan Celfyddydau ac Arloesi Pontio, a dim ond £6.50 ydy pris tocyn myfyriwr.

Mae bron pob un o'r prif archfarchnadoedd i'w cael ym Mangor gan olygu bod rhywbeth at bob angen a phob cyllideb.

Gelli fwynhau digwyddiadau cymdeithasol sydd (gan fwyaf) yn rhad ac am ddim ac yn cael eu cynnal gan Campws Byw, ynghyd ag aelodaeth am ddim o'r gampfa yng Nghanolfan Brailsford os wyt ti'n byw mewn neuadd.

Gelli arbedu ar gostau cludiant - mae modd cerdded i bobman ym Mangor bron!

Gelli fwynhau prydau poeth fforddiadwy o ddydd Llun i ddydd Gwener yng Nghaffi Teras a Bar Uno y Brifysgol.

Mae mynediad i fannau dysgu cynnes 24/7, felly mae rhywle i fynd bob amser i gadw'n gynnes a gwefru batris.

Gall Uned Cefnogaeth Ariannol y brifysgol dy helpu i gyllidebu.

Mae mynediad at Gronfa Caledi i gefnogi myfyrwyr gyda chostau hanfodol na ellir eu rhagweld.

TEIMLO'N GARTREFOL O'R DIWRNOD CYNTAF

# LLETY

Mae ein neuaddau preswyl fforddiadwy, cyfforddus a diogel yn lle perffaith i ddechrau dy daith yn y brifysgol. Byddi di'n teimlo'n gartrefol o'r eiliad y byddi di'n cyrraedd; wedi dy amgylchynu gan ffrindiau ac yng nghanol cymuned myfyrwyr fywiog Bangor, mae'n hawdd ymgartrefu a chreu atgofion gydol oes.

Gydag ychydig dros 2,600 o ystafelloedd, mae sicrwydd o lety* i bob ymgeisydd israddedig newydd yn un o'n pentrefi myfyrwyr, sef Pentref y Santes Fair neu Bentref Ffriddoedd.

*I gael manylion llawn am ein gwarant llety ewch i **bangor.ac.uk/llety**

# OPSIYNAU

- Ystafelloedd gwely en-suite (gan rannu cegin)
- Ystafelloedd gwely fforddiadwy (gan rannu cegin ac mae rhai yn rhannu ystafelloedd ymolchi)
- Stiwdios (gydag ystafell wely en-suite a chegin fach breifat)
- Tai tref (gan rannu cegin / ystafelloedd ymolchi)
- Ystafelloedd hygyrch, gan gynnwys rhai â mynediad i gadeiriau olwyn
- Darpariaethau i fyfyrwyr ag amhariad ar y clyw
- Neuaddau i fyfyrwyr Cymraeg eu hiaith
- Neuaddau i fyfyrwyr gofal iechyd
- Neuaddau tawel
- Fflatiau i ferched yn unig
- Fflatiau di-alcohol

# BETH SYDD WEDI EI GYNNWYS YNG **NGHOSTAU NEUADDAU:**

- Pob bil (dŵr, gwres, trydan)
- Wi-Fi cyflymder uchel
- Atgyweirio a chynnal a chadw amserol
- Ceginau ac ardaloedd a rennir sy'n cael eu glanhau bob pythefnos
- Yswiriant cynnwys
- Aelodaeth o'r gampfa ac aelodaeth Campws Byw

## FFIOEDD LLETY

**(yn seiliedig ar brisiau 2026/27)**


| | |
|---|---|
| **Yn dechrau o £105 yr wythnos** ystafell gydag ystafell ymolchi a rennir | **Yn dechrau o £130 yr wythnos** tŷ tref gydag ystafell ymolchi a rennir |
| **Yn dechrau o £125 yr wythnos** ystafell en-suite | **Yn dechrau o £220 yr wythnos** stiwdio gydag en-suite a chegin fach breifat |













# PENTREF **FFRIDDOEDD**

Ym Mangor Uchaf mae ein pentref myfyrwyr mwyaf, a dim ond 5 munud o waith cerdded o'r orsaf drenau a 10 munud o brif adeiladau'r brifysgol mae'r safle. Mae Pentref Ffriddoedd mewn lleoliad perffaith i fyfyrwyr - mae'n agos at dy ddarlithoedd, dy ffrindiau a phopeth sydd gan y ddinas i'w gynnig.

## BETH SYDD AR Y SAFLE?

- Tua 1900 o ystafelloedd - gydag ystafelloedd ymolchi en-suite
- Golchdai
- Ystafelloedd cyffredin gyda mannau astudio, mannau ymlacio ac ystafelloedd cyfrifiaduron
- Bar caffi Bar Uno
- Canolfan Chwaraeon Brailsford

**Neuadd John Morris-Jones** yw'r neuadd benodedig i fyfyrwyr israddedig sy'n siarad Cymraeg ac sy'n dysgu Cymraeg. Gelli wneud cais i fyw yma os hoffet fyw gyda Chymry Cymraeg eraill.

# PENTREF
# Y SANTES FAIR



Mae Pentref y Santes Fair yn bentref myfyrwyr llai ar lethrau bryn gyda golygfeydd prydferth dros y ddinas - mae'n le cyfeillgar, hamddenol a llawn cymeriad. Dim ond 5 munud o waith cerdded sydd i ganol y ddinas a thua chwarter awr i'r orsaf drenau a phrif adeiladau'r brifysgol, sy'n rhoi'r cydbwysedd perffaith i ti rhwng tawelwch a chyfleustra.



## BETH SYDD AR Y SAFLE?

- Mae tua 690 o ystafelloedd ar y safle, gan gynnwys ystafelloedd gwely en-suite, ystafelloedd fforddiadwy, fflatiau stiwdio a thai tref.
- Siop
- Golchdy
- Ystafelloedd cyffredin gyda mannau astudio, mannau ymlacio ac ystafelloedd cyfrifiaduron
- Ceginau cymunedol ac ystafell gyfarfod
- Ystafell ffitrwydd (gall myfyrwyr hefyd ddefnyddio canolfan chwaraeon Brailsford)
- Caffi Barlows
- Gofod adloniant Acapela



# UNDEB Y **MYFYRWYR**



Mae dechrau yn y brifysgol yn gam mawr. Undeb Bangor yw eich Undeb Myfyrwyr chi, ac rydym yma i lunio dy brofiad myfyrwyr a'th helpu i wneud yn fawr ohono o'r diwrnod cyntaf.

Rydym yn cefnogi dros 10,000 o fyfyrwyr trwy gynrychiolaeth, digwyddiadau, cymdeithasau, chwaraeon, gwirfoddoli a chyngor academaidd. O gynnal ymgyrchoedd a chynrychioli dy ddiddordebau academaidd, i ddarparu cefnogaeth a chreu cyfleoedd i gysylltu, dysgu a chael hwyl, mae Undeb Bangor yn ganolog i fywyd myfyrwyr.

## Undeb Myfyrwyr Cymraeg Bangor (UMCB)

Rydym yn falch o fod yn ddwyieithog ac yn gynhwysol. Mae

UMCB, Undeb Myfyrwyr Cymraeg Bangor, yn rhan o Undeb Bangor ac yn gweithio i hyrwyddo'r iaith, y diwylliant a'r gymuned Gymreig ar y campws. P'un a wyt ti’n siaradwr Cymraeg rhugl, yn ddysgwr, neu gyda diddordeb mewn diwylliant Cymru, gelli di gymryd rhan.


Mae UMCB yn cefnogi amrywiaeth eang o glybiau a chymdeithasau, yn ogystal ag ymgyrchoedd, i sicrhau bod yr iaith Gymraeg yn parhau i fod yn rhan bwysig o fywyd ym Mangor. Nid oes rhaid i ti fod yn rhugl i gymryd rhan, mae bod yn frwdfrydig yn ddigon!


UNDE
MYFYRWY

# CYMRYD RHAN

**Ym Mangor, mae yna lwythi o weithgareddau a chwaraeon - mae'n ffordd berffaith o wneud ffrindiau, cwrdd â phobl newydd a rhoi cynnig ar rywbeth hollol newydd.**

Mae ein digwyddiad croeso mwyaf yn y flwyddyn, Serendipedd, yn digwydd yn ystod yr Wythnos Groeso. Bydd yna dros 150 o stondinau a redir gan grwpiau myfyrwyr, gwasanaethau prifysgol a busnesau lleol, pob un yn barod i dy helpu di i fanteisio i'r eithaf ar dy amser ym Mangor. Gelli di ddisgwyl cael digonedd o bethau am ddim, cyfleoedd cyffrous a llawer o wybodaeth am sut i gymryd rhan.





## CLYBIAU CHWARAEON

Beth bynnag dy ddiddordeb, bydd yna ffordd i ti fod yn egnïol ym Mangor. Mae yna dros 68 o glybiau chwaraeon, ac rwyt yn siŵr o ddod o hyd i rywbeth fydd yn dy siwtio di! Gelli hefyd ymuno â chlybiau chwaraeon y Cymric, sef clybiau cyfrwng Cymraeg y brifysgol.

Mae sesiynau hyfforddi'r holl glybiau'n cael eu cynnal yng nghyfleusterau chwaraeon o'r radd flaenaf yn y brifysgol. Gyda thocyn aelodaeth yr Undeb Athletau, gelli ddewis rhwng tocyn arian neu docyn aur (tocyn cystadlu Chwaraeon Prifysgolion a Cholegau Prydain), am gyn lleied â £50. Mae'r taliad untro hwn yn rhoi mynediad i ti i bob clwb chwaraeon, felly gelli roi cynnig ar gynifer ag wyt ti'n dymuno.

## CYMDEITHASAU

Mae cymdeithasau Bangor yn dod â phobl ynghyd, ac mae dros 100 i ddewis o'u plith, felly mae yna rywbeth i bawb. Boed yn grwpiau academaidd a grwpiau sy'n gysylltiedig â chyrsiau, cymdeithasau diwylliannol a rhyngwladol, clybiau sy'n seiliedig ar hobïau neu gymdeithasau Cymreig fel côr Aelwyd JMJ, mae yna bob amser le croesawgar i gwrdd â ffrindiau newydd a mwynhau dy ddiddordebau.

Am £10, cei aelodaeth cymdeithas, sy'n rhoi mynediad diderfyn i ti i bob cymdeithas am y flwyddyn.

**DROS**

**150**

**O GLYBIAU, CYMDEITHASAU A PHROJECTAU GWIRFODDOLI**

# GWNEUD GWAHANIAETH TRWY WIRFODDOLI

Yn dy amser rhydd, gelli gymryd rhan mewn projectau gyda Gwirfoddoli Myfyrwyr Bangor, sy'n cyfrannu 2,600 awr bob blwyddyn at brojectau cymunedol.

Mae gwirfoddoli yn ffordd wych o roi rhywbeth yn ôl, cwrdd â ffrindiau newydd ac ennill profiad gwerthfawr a all roi hwb i dy yrfa yn y dyfodol.

Gyda dros 30 o brojectau gwahanol i ddewis o'u plith, mae yna ddigon o ffyrdd i gymryd rhan mewn rhywbeth sy'n dy ysbrydoli - pob un wedi ei drefnu dan amrywiaeth o gategorïau i gyd-fynd â dy ddiddordebau a'th sgiliau.




# CYNRYCHIOLAETH A CHEFNOGAETH ACADEMAIDD

Yn Undeb Bangor, rydym wedi ymrwymo i dy helpu i lwyddo'n academaidd a gwneud i dy lais gyfrif. Mae ein Gwasanaeth Cyngor Academaidd yn cynnig cefnogaeth gyfrinachol gydag unrhyw faterion academaidd, tra bod ein tîm o gynrychiolwyr ysgol gwirfoddol yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o lunio profiad dysgu myfyrwyr ym Mangor.

Gelli hyd yn oed ddewis bod yn gynrychiolydd ysgol dy hun!

Lles | Amgylcheddol | Yr Henoed | Canolbwyntio ar y gymuned | Plant | Ymgyrchoedd a digwyddiadau codi arian



# BLWYDDYN AR LEOLIAD

**Mae blwyddyn ar leoliad yn gyfle anhygoel i ennill profiad yn y byd go iawn, datblygu sgiliau newydd a rhoi hwb i dy gyflogadwyedd. Ym Mangor, mae modd gwneud blwyddyn ar leoliad fel rhan o bron pob gradd israddedig yr ydym yn eu cynnig.**

Bydd gennyt amser i ystyried a yw'n iawn i ti a gelli wneud cais ar ôl dechrau dy radd, gan roi'r cyfle i ti wneud dewis gwybodus.

## PAM GWNEUD BLWYDDYN AR LEOLIAD?

- Ehangu dy orwelion
- Dysgu sgiliau newydd
- Cael profiad ymarferol yn dy bwnc
- Adeiladu cysylltiadau proffesiynol gwerthfawr
- Cryfhau dy ragolygon gyrfa

# ASTUDIO NEU WEITHIO **DRAMOR**

**Mae astudio neu weithio dramor yn ffordd wych o gael profiad o ddiwylliant newydd, gweld y byd o safbwynt gwahanol a pharhau i ennill credydau tuag at dy radd. Mae'n gyfle i ehangu dy orwelion tra'n dysgu mwy am dy bwnc.**

**Mae'r rhan fwyaf o gyrsiau israddedig ym Mangor yn cynnig blwyddyn o brofiad rhyngwladol, a bydd gennyt amser i ystyried y dewis hwn yn llawn wrth astudio, gan dy helpu i wneud y dewis sy'n iawn i ti.**





# BLWYDDYN **SYLFAEN**

**Mae llawer o'n cyrsiau'n cynnig blwyddyn sylfaen, gan ddarparu llwybr gyda gofynion mynediad is.**

**Mae blwyddyn sylfaen yn ddelfrydol os nad oes gennyt y cymwysterau i ddechrau ar gwrs lefel gradd eto neu os wyt ti'n dod yn ôl i addysg ar ôl cyfnod hir.**

**I fyfyrwyr rhyngwladol, mae ganddynt hefyd y dewis o wneud 'blwyddyn sero' yng Ngholeg Rhyngwladol Prifysgol Bangor, gan roi'r sgiliau a'r hyder i ti lwyddo ar lefel gradd.**

# BYWYD **MYFYRWYR**


**Ym Mangor, dy lesiant di yw ein prif flaenoriaeth. O reoli arian i baratoi at dy swydd gyntaf ar ôl graddio, mae'r Gwasanaethau Myfyrwyr ac Academaidd yno i dy helpu i wneud yn fawr o dy amser yn y brifysgol.**

## MAE'R GWASANAETHAU CEFNOGI MYFYRWYR YN CYNNWYS:

- Cefnogaeth ariannol
- Cefnogaeth gydag anabledd a gwahaniaethau dysgu penodol
- Cyngor a chefnogaeth iechyd meddwl, gan gynnwys cwnsela gyda rhaglen cymorth i fyfyrwyr 24/7 gan Health Assured
- Tîm y Gaplaniaeth
- Cefnogaeth Addysgu a Dysgu

P'un a oes angen arweiniad ymarferol, cyngor a chefnogaeth, neu gymorth academaidd arnat, mae rhywun yma bob amser i dy helpu di.





# LLWYDDIANT MYFYRWYR: GYRFAOEDD A CHYFLOGADWYEDD

**P'un a wyt ti'n ystyried dewisiadau gyrfa, yn ennill profiad gwaith, neu'n dechrau dy fusnes dy hun, mae Llwyddiant Myfyrwyr: Gwasanaeth Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd yma i dy helpu meithrin sgiliau, hyder a chysylltiadau ar gyfer y dyfodol.**

## MAE EIN CEFNOGAETH YN CYNNWYS:

- Stiwdio Gyrfaoedd newydd sbon, sy'n cynnig cefnogaeth wyneb yn wyneb gyda sesiynau cynllunio gyrfa a gweithdai trwy gydol y semester
- Hyb cyflogadwyedd ar-lein gyda llond gwlad o adnoddau
- Arweiniad ar ddod o hyd i waith rhan amser, interniaethau, lleoliadau a phrofiad gwaith
- Cymorth i baratoi at swyddi sy’n addas i raddedigion ac ymgeisio amdanynt
- Cyfle i gymryd rhan mewn interniaethau â thâl yn y brifysgol
- Llwybrau sgiliau yn CyswlltGyrfa - cyrsiau ar-lein wedi eu cynllunio i dy helpu i gael dy swydd ddelfrydol

**Jemima Letts**
**Coedwigaeth (BSc), 2019**
Rheolwr Coedwigaeth yn Ystâd Chatsworth



# BWRSARIAETHAU AC YSGOLORIAETHAU

**Mae gennym nifer o fwrsariaethau ac ysgoloriaethau sydd wedi eu cynllunio i dy helpu trwy gydol dy astudiaethau.**

**Mae rhagor o wybodaeth am yr hyn sydd ar gael, cymhwysedd a'r broses ymgeisio ar gael ar ein gwefan.**



# YSGOLORIAETHAU'R **COLEG CYMRAEG CENEDLAETHOL**

## MAE YSGOLORIAETHAU AR GAEL I FYFYRWYR SY'N ASTUDIO NAILL AI:

- 80 credyd y flwyddyn (Prif Ysgoloriaeth, £1000 y flwyddyn) trwy gyfrwng y Gymraeg
- 40 credyd y flwyddyn (Ysgoloriaeth Cymhelliant, £500 y flwyddyn) trwy gyfrwng y Gymraeg

**Rhaid sefyll arholiad mynediad Bangor er mwyn ymgeisio am y Brif Ysgoloriaeth.**

DY DAITH, **DY IAITH**

# ASTUDIO YN **GYMRAEG**

**Ym Mangor, mae gan fyfyrwyr Cymraeg eu hiaith y dewis i astudio eu gradd gyfan neu ran o'u gradd trwy gyfrwng y Gymraeg.**

Mae galw mawr am weithwyr proffesiynol dwyieithog ledled Cymru, ac mae astudio yn y Gymraeg yn rhoi cyfle i ti gryfhau dy sgiliau iaith wrth adeiladu sylfaen gref ar gyfer dy yrfa yn y dyfodol. Yma, nid oes rhaid i ti ddewis rhwng dy iaith a dy uchelgais, rydym yn galluogi'r ddau.

Byddi di'n ymuno â chymuned Gymraeg ffyniannus sy'n dathlu'r iaith, y diwylliant, a'r cyfleoedd mae'n eu creu.



# YSGOL FEDDYGOL

## GOGLEDD CYMRU

**Meddygaeth:**

**Fferylliaeth:**

**Mae rhaglen feddygaeth Prifysgol Bangor yn galluogi myfyrwyr i gwblhau eu gradd feddygaeth gyfan yng ngogledd Cymru, gan weithio'n agos â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a darparwyr gofal cychwynnol ar draws yr ardal.**

Yn 2025, lansiodd Ysgol Feddygol Gogledd Cymru radd fferylliaeth newydd sbon, gan roi cyfle i fyfyrwyr astudio fferylliaeth yng ngogledd Cymru am y tro cyntaf erioed.

Mae ein cyrsiau'n cynnig profiad dysgu cyfoethog ac ymarferol, gyda phwyslais cryf ar ddysgu yn y gymuned - sy'n cyd-fynd yn llawn â gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer 'Cymru Iachach'.

# CYRSIAU


34 Addysg, Astudiaethau Plentyndod ac Ieuenctid
34-35 Bancio, Cyfrifeg, Cyllid ac Economeg
35 Bioleg a Biotechnoleg
35-36 Busnes, Marchnata a Rheolaeth
36 Cadwraeth, Daearyddiaeth a’r Amgylchedd
37 Cerddoriaeth a Drama
37-38 Cyfrifiadureg
38 Cymraeg
39 Ffilm a'r Cyfryngau
39 Gwyddorau Chwaraeon ac Ymarfer
40 Gwyddorau Meddygol ac Iechyd
41 Gwyddorau'r Eigion
42 Hanes ac Archaeoleg
42 Iaith Saesneg ac Ieithyddiaeth
43 Ieithoedd Modern (Ffrangeg, Sbaeneg)
43 Llenyddiaeth Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol
44 Meddygaeth
44 Peirianneg a Dylunio Cynnyrch
45 Seicoleg
45-46 Swoleg
46 Troseddeg, Plismona a Gwyddorau Cymdeithas
47 Y Gyfraith




**Edrychwch ar dudalennau 34-47 i weld cyrsiau unigol**



## BLWYDDYN SYLFAEN

Mae opsiynau i astudio Blwyddyn Sylfaen ar gael ar gyfer y rhan fwyaf o'n graddau.

Edrycha ar y tudalennau cyrsiau ar ein gwefan i gael rhagor o wybodaeth.

## OPSIYNAU CYFRWNG CYMRAEG

Mae'r brifysgol yn cynnig llawer o gyfleoedd i fyfyrwyr astudio drwy gyfrwng y Gymraeg.

I gael gwybod faint o'ch cwrs sydd ar gael yn Gymraeg, ewch i: colegcymraeg.ac.uk

| Cod | Teitl y Rhaglen | Cymhwyster | Tariff Dangosol (2027) | Hyd y cwrs (BI) | Blwyddyn Lleoliad / Profiad Rhyngwladol ychwanegol (dewisol) |
|---|---|---|---|---|---|
| **Addysg, Astudiaethau Plentyndod ac Ieuenctid** | | | | | |
| X131 | Addysg Gynradd gyda Statws Athro Cymwysedig (cwrs cyfrwng Saesneg) | BA (Anrh) | 104-128 | 3 blynedd | |
| X130 | Addysg Gynradd gyda Statws Athro Cymwysedig (cwrs cyfrwng Cymraeg) | BA (Anrh) | 104-128 | 3 blynedd | |
| X313 | Astudiaethau Plentyndod ac Ieuenctid (cwrs cyfrwng Saesneg) | BA (Anrh) | 96-120 | 3 blynedd | ✓ |
| X314 | Astudiaethau Plentyndod ac Ieuenctid (cwrs cyfrwng Cymraeg) | BA (Anrh) | 96-120 | 3 blynedd | ✓ |
| X315 | Astudiaethau Plentyndod ac Ieuenctid a Chymdeithaseg (cwrs cyfrwng Saesneg) | BA (Anrh) | 96-120 | 3 blynedd | ✓ |
| X316 | Astudiaethau Plentyndod ac Ieuenctid a Chymdeithaseg (cwrs cyfrwng Cymraeg) | BA (Anrh) | 96-120 | 3 blynedd | ✓ |
| X321 | Astudiaethau Plentyndod ac Ieuenctid a Chymraeg (cwrs cyfrwng Cymraeg) | BA (Anrh) | 96-120 | 3 blynedd | ✓ |
| X319 | Astudiaethau Plentyndod ac Ieuenctid a Seicoleg | BA (Anrh) | 96-120 | 3 blynedd | ✓ |
| **Bancio, Cyfrifeg, Cyllid ac Economeg** | | | | | |
| N391 | Bancio a Chyllid | BSc (Anrh) | 104-128 | 3 blynedd | ✓ |
| N39F | Bancio a Chyllid (gyda Blwyddyn Sylfaen) | BSc (Anrh) | 48-96 | 4 blynedd | ✓ |
| N312 | Bancio gyda Thechnoleg Ariannol | BSc (Anrh) | 104-128 | 3 blynedd | ✓ |
| N32F | Bancio gyda Thechnoleg Ariannol (gyda Blwyddyn Sylfaen) | BSc (Anrh) | 48-96 | 4 blynedd | ✓ |

## Bancio, Cyfrifeg, Cyllid ac Economeg

| Cod | Teitl y Rhaglen | Cymhwyster | Tariff Dangosol (2027) | Hyd y cwrs (BI) | Blwyddyn Lleoliad / Profiad Rhyngwladol ychwanegol (dewisol) |
|---|---|---|---|---|---|
| NN4H | Cyfrifeg a Chyllid | BSc (Anrh) | 112-136 | 3 blynedd | ✓ |
| NN4F | Cyfrifeg a Chyllid (gyda Blwyddyn Sylfaen) | BSc (Anrh) | 64-104 | 4 blynedd | ✓ |
| N4N2 | Cyfrifeg a Rheolaeth | BSc (Anrh) | 112-136 | 3 blynedd | ✓ |
| N4NF | Cyfrifeg a Rheolaeth (gyda Blwyddyn Sylfaen) | BSc (Anrh) | 64-104 | 4 blynedd | ✓ |
| L110 | Economeg | BSc (Anrh) | 112-136 | 3 blynedd | ✓ |
| L10F | Economeg (gyda Blwyddyn Sylfaen) | BSc (Anrh) | 64-104 | 4 blynedd | ✓ |
| L1N3 | Economeg a Chyllid | BSc (Anrh) | 104-128 | 3 blynedd | ✓ |
| L1NF | Economeg a Chyllid (gyda Blwyddyn Sylfaen) | BSc (Anrh) | 48-96 | 4 blynedd | ✓ |

## Bioleg a Biotechnoleg

| Cod | Teitl y Rhaglen | Cymhwyster | Tariff Dangosol (2027) | Hyd y cwrs (BI) | Blwyddyn Lleoliad / Profiad Rhyngwladol ychwanegol (dewisol) |
|---|---|---|---|---|---|
| C100 | Bioleg | BSc (Anrh) | 112-136 | 3 blynedd | ✓ |
| C101 | Bioleg | MBiol (Anrh) | 128-144 | 4 blynedd | ✓ |
| C10F | Bioleg (gyda Blwyddyn Sylfaen) | BSc (Anrh) | 48-104 | 4 blynedd | ✓ |
| C511 | Bioleg gyda Biotechnoleg | BSc (Anrh) | 112-136 | 3 blynedd | ✓ |
| C510 | Bioleg gyda Biotechnoleg | MBiol (Anrh) | 128-144 | 4 blynedd | ✓ |

## Busnes, Marchnata a Rheolaeth

| Cod | Teitl y Rhaglen | Cymhwyster | Tariff Dangosol (2027) | Hyd y cwrs (BI) | Blwyddyn Lleoliad / Profiad Rhyngwladol ychwanegol (dewisol) |
|---|---|---|---|---|---|
| N313 | Dadansoddeg Data Busnes | BSc (Anrh) | 104-128 | 3 blynedd | ✓ |
| N31F | Dadansoddeg Data Busnes (gyda Blwyddyn Sylfaen) | BSc (Anrh) | 48-96 | 4 blynedd | ✓ |
| N501 | Marchnata | BSc (Anrh) | 104-128 | 3 blynedd | ✓ |
| N50F | Marchnata (gyda Blwyddyn Sylfaen) | BSc (Anrh) | 48-96 | 4 blynedd | ✓ |

| Cod | Teitl y Rhaglen | Cymhwyster | Tariff Dangosol (2027) | Hyd y cwrs (BI) | Blwyddyn Lleoliad / Profiad Rhyngwladol ychwanegol (dewisol) |
|---|---|---|---|---|---|
| **Busnes, Marchnata a Rheolaeth** | | | | | |
| N111 | Menter Busnes ac Entrepreneuriaeth | BSc (Anrh) | 104-128 | 3 blynedd | ✓ |
| N200 | Rheoli Busnes | BSc (Anrh) | 104-128 | 3 blynedd | ✓ |
| N20F | Rheoli Busnes (gyda Blwyddyn Sylfaen) | BSc (Anrh) | 48-96 | 4 blynedd | ✓ |
| N832 | Rheoli Twristiaeth | BSc (Anrh) | 96-120 | 3 blynedd | ✓ |
| N833 | Rheoli Twristiaeth (gyda Blwyddyn Sylfaen) | BSc (Anrh) | 48-80 | 4 blynedd | ✓ |
| **Cadwraeth, Daearyddiaeth a'r Amgylchedd** | | | | | |
| D447 | Cadwraeth Amgylcheddol | BSc (Anrh) | 104-128 | 3 blynedd | ✓ |
| D515 | Cadwraeth a Rheoli Coetiroedd | BSc (Anrh) | 88-120 | 3 blynedd | ✓ |
| C347 | Cadwraeth ac Ecoleg Bywyd Gwyllt | BSc (Anrh) | 104-128 | 3 blynedd | ✓ |
| 5DKD | Cadwraeth gyda Choedwigaeth | BSc (Anrh) | 104-128 | 3 blynedd | ✓ |
| D500 | Coedwigaeth | BSc (Anrh) | 88-120 | 3 blynedd | ✓ |
| L700 | Daearyddiaeth | BA (Anrh) | 104-136 | 3 blynedd | ✓ |
| F800 | Daearyddiaeth | BSc (Anrh) | 104-136 | 3 blynedd | ✓ |
| F801 | Daearyddiaeth | MGeog (Anrh) | 112-144 | 4 blynedd | ✓ |
| F900 | Gwyddorau'r Amgylchedd | BSc (Anrh) | 104-128 | 3 blynedd | ✓ |
| F850 | Gwyddorau'r Amgylchedd | MEnvSci (Anrh) | 120-136 | 4 blynedd | ✓ |
| F90F | Gwyddorau'r Amgylchedd (gyda Blwyddyn Sylfaen) | BSc (Anrh) | 48-96 | 4 blynedd | ✓ |

| Cod | Teitl y Rhaglen | Cymhwyster | Tariff Dangosol (2027) | Hyd y cwrs (BI) | Blwyddyn Lleoliad / Profiad Rhyngwladol ychwanegol (dewisol) |
|---|---|---|---|---|---|

## Cerddoriaeth a Drama

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| W300 | Cerddoriaeth | BA (Anrh) | 104-128 | 3 blynedd | ✓ |
| W302 | Cerddoriaeth | BMUS (Anrh) | 104-128 | 3 blynedd | ✓ |
| W30F | Cerddoriaeth (gyda Blwyddyn Sylfaen) | BA (Anrh) | 48-96 | 4 blynedd | ✓ |
| W32F | Cerddoriaeth (gyda Blwyddyn Sylfaen) | BMUS (Anrh) | 48-96 | 4 blynedd | ✓ |
| WW38 | Cerddoriaeth ac Ysgrifennu Creadigol | BA (Anrh) | 104-128 | 3 blynedd | ✓ |
| W3R8 | Cerddoriaeth ac Ieithoedd Modern | BA (Anrh) | 104-128 | 4 blynedd | ✓ |
| W311 | Cerddoriaeth a Ffilm | BA (Anrh) | 104-128 | 3 blynedd | ✓ |
| WW43 | Cerddoriaeth a Drama | BA (Anrh) | 104-128 | 3 blynedd | ✓ |
| P34W | Ffilm a Drama | BA (Anrh) | 96-128 | 3 blynedd | ✓ |
| QW34 | Llenyddiaeth Saesneg a Drama | BA (Anrh) | 104-128 | 3 blynedd | ✓ |
| P31W | Y Cyfryngau a Drama | BA (Anrh) | 96-128 | 3 blynedd | ✓ |

## Cyfrifiadureg

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| G400 | Cyfrifiadureg | BSc (Anrh) | 120-136 | 3 blynedd | ✓ |
| H117 | Cyfrifiadureg | MComp (Anrh) | 128-144 | 4 blynedd | ✓ |
| G40F | Cyfrifiadureg (gyda Blwyddyn Sylfaen) | BSc (Anrh) | 48-112 | 4 blynedd | ✓ |
| I103 | Cyfrifiadureg a Dylunio Gemau | BSc (Anrh) | 120-136 | 3 blynedd | ✓ |
| H118 | Gwyddor Data a Deallusrwydd Artiffisial | BSc (Anrh) | 120-136 | 3 blynedd | ✓ |
| H114 | Gwyddor Data a Delweddu | BSc (Anrh) | 120-136 | 3 blynedd | ✓ |

| Cod | Teitl y Rhaglen | Cymhwyster | Tariff Dangosol (2027) | Hyd y cwrs (Bl) | Blwyddyn Lleoliad / Profiad Rhyngwladol ychwanegol (dewisol) |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfrifiadureg** | | | | | |
| I110 | Systemau Gwybodaeth Cyfrifiadurol | BSc (Anrh) | 104-128 | 3 blynedd | ✓ |
| IN00 | Systemau Gwybodaeth Cyfrifiadurol i Fusnesau | BSc (Anrh) | 104-128 | 3 blynedd | ✓ |
| GW49 | Technolegau Creadigol | BSc (Anrh) | 104-128 | 3 blynedd | ✓ |
| **Cymraeg** | | | | | |
| Q565 | Cymraeg i Ddechreuwyr | BA (Anrh) | 96-120 | 4 blynedd | ✓ |
| Q562 | Cymraeg[1] | BA (Anrh) | 104-128 | 3 blynedd | ✓ |
| QW53 | Cymraeg a Cherddoriaeth | BA (Anrh) | 104-128 | 3 blynedd | ✓ |
| LQ35 | Cymraeg a Chymdeithaseg | BA (Anrh) | 104-128 | 3 blynedd | ✓ |
| QV51 | Cymraeg a Hanes | BA (Anrh) | 104-128 | 3 blynedd | ✓ |
| QMV2 | Cymraeg a Hanes Cymru | BA (Anrh) | 104-128 | 3 blynedd | ✓ |
| 3Q5Q | Cymraeg a Llenyddiaeth Saesneg | BA (Anrh) | 104-128 | 3 blynedd | ✓ |
| Q5VV | Cymraeg ac Athroniaeth, Moeseg a Chrefydd | BA (Anrh) | 104-128 | 3 blynedd | ✓ |
| QQ15 | Cymraeg ac Ieithyddiaeth | BA (Anrh) | 104-128 | 3 blynedd | ✓ |
| Q5WK | Cymraeg gydag Ysgrifennu Creadigol | BA (Anrh) | 104-128 | 3 blynedd | ✓ |
| Q563 | Cymraeg Proffesiynol | BA (Anrh) | 104-128 | 3 blynedd | ✓ |
| QWM5 | Cymraeg, Theatr a'r Cyfryngau | BA (Anrh) | 104-128 | 3 blynedd | ✓ |

| Cod | Teitl y Rhaglen | Cymhwyster | Tariff Dangosol (2027) | Hyd y cwrs (Bl) | Blwyddyn Lleoliad / Profiad Rhyngwladol ychwanegol (dewisol) |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ffilm a'r Cyfryngau** | | | | | |
| WPQ3 | Celfyddydau Creadigol | BA (Anrh) | 96-128 | 3 blynedd | ✓ |
| 33PQ | Ffilm a Llenyddiaeth Saesneg | BA (Anrh) | 104-128 | 3 blynedd | ✓ |
| P318 | Y Cyfryngau, Ffilm a Newyddiaduraeth | BA (Anrh) | 96-128 | 3 blynedd | ✓ |
| P320 | Y Cyfryngau, Ffilm a Newyddiaduraeth (gyda Blwyddyn Sylfaen) | BA (Anrh) | 48-88 | 4 blynedd | ✓ |
| P302 | Y Cyfryngau a Llenyddiaeth Saesneg | BA (Anrh) | 104-128 | 3 blynedd | ✓ |
| P323 | Y Cyfryngau a Cherddoriaeth | BA (Anrh) | 104-128 | 3 blynedd | ✓ |
| WP38 | Y Cyfryngau ac Ysgrifennu Creadigol | BA (Anrh) | 104-128 | 3 blynedd | ✓ |
| **Gwyddorau Chwaraen ac Ymarfer** | | | | | |
| C611 | Gwyddorau Chwaraeon Antur | BSc (Anrh) | 104-128 | 3 blynedd | ✓ |
| C616 | Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer | BSc (Anrh) | 104-128 | 3 blynedd | ✓ |
| C61F | Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer (gyda Blwyddyn Sylfaen) | BSc (Anrh) | 48-96 | 4 blynedd | ✓ |
| C617 | Gwyddorau Chwaraeon, Addysg Gorfforol a Hyfforddi | BSc (Anrh) | 104-128 | 3 blynedd | ✓ |
| C680 | Seicoleg Chwaraeon ac Ymarfer | BSc (Anrh) | 104-128 | 3 blynedd | ✓ |

| Cod | Teitl y Rhaglen | Cymhwyster | Tariff Dangosol (2027) | Hyd y cwrs (BI) | Blwyddyn Lleoliad / Profiad Rhyngwladol ychwanegol (dewisol) |
|---|---|---|---|---|---|

## Gwyddorau Meddygol ac Iechyd

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| B720 | Bydwreigiaeth | BMid (Anrh) | 112-120 | 3 blynedd | |
| B200 | Ffarmacoleg | BSc (Anrh) | 120-136 | 3 blynedd | ✓ |
| B20F | Ffarmacoleg (gyda Blwyddyn Sylfaen) | BSc (Anrh) | 48-104 | 4 blynedd | ✓ |
| B230 | Fferylliaeth | MPharm | Gweler y wefan | 4 blynedd | |
| B231 | Fferylliaeth gyda Blwyddyn Baratoadol | MPharm | Gweler y wefan | 5 mlynedd | |
| B102 | Gwyddor Biofeddygol | BSc (Anrh) | 120-136 | 3 blynedd | ✓ |
| B112 | Gwyddor Biofeddygol (gyda Blwyddyn Sylfaen) | BSc (Anrh) | 64-112 | 4 blynedd | ✓ |
| B100 | Gwyddorau Meddygol | BMedSci (Anrh) | 120-136 | 3 blynedd | ✓ |
| B110 | Gwyddorau Meddygol (gyda Blwyddyn Sylfaen) | BMedSci (Anrh) | 64-112 | 4 blynedd | ✓ |
| B751 | Hylendid Deintyddol | DipHE | 80 | 2 flynedd | |
| L510 | Iechyd a Gofal Cymdeithasol | BA (Anrh) | 96-112 | 3 blynedd | |
| B763 | Nyrsio Anableddau Dysgu [2] | BN (Anrh) | 96-120 | 3 blynedd | |
| B762 | Nyrsio Iechyd Meddwl [2] | BN (Anrh) | 96-120 | 3 blynedd | |
| B741 | Nyrsio Oedolion [2] | BN (Anrh) | 96-120 | 3 blynedd | |
| B732 | Nyrsio Plant [2] | BN (Anrh) | 96-120 | 3 blynedd | |
| B821 | Radiograffeg Diagnostig [3] | BSc (Anrh) | 120 | 3 blynedd | |

| Cod | Teitl y Rhaglen | Cymhwyster | Tariff Dangosol (2027) | Hyd y cwrs (Bl) | Blwyddyn Lleoliad / Profiad Rhyngwladol ychwanegol (dewisol) |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gwyddorau'r Eigion** | | | | | |
| C160 | Bioleg Môr | BSc (Anrh) | 120-144 | 3 blynedd | ✓ |
| C167 | Bioleg Môr | MSci (Anrh) | 128-152 | 4 blynedd | ✓ |
| C16F | Bioleg Môr (gyda Blwyddyn Sylfaen) | BSc (Anrh) | 48-112 | 4 blynedd | ✓ |
| CF17 | Bioleg Môr ac Eigioneg | BSc (Anrh) | 120-144 | 3 blynedd | ✓ |
| F712 | Bioleg Môr ac Eigioneg | MSci (Anrh) | 128-152 | 4 blynedd | ✓ |
| CC13 | Bioleg Môr a Swoleg | BSc (Anrh) | 120-144 | 3 blynedd | ✓ |
| C169 | Bioleg Môr a Swoleg | MSci (Anrh) | 128-152 | 4 blynedd | ✓ |
| C355 | Cadwraeth Fertebratau’r Môr | BSc (Anrh) | 112-128 | 3 blynedd | ✓ |
| C356 | Cadwraeth Fertebratau’r Môr | MSci (Anrh) | 128-152 | 4 blynedd | ✓ |
| F840 | Daearyddiaeth Ffisegol ac Eigioneg | BSc (Anrh) | 112-128 | 3 blynedd | ✓ |
| F650 | Eigioneg Ddaearegol | BSc (Anrh) | 120-144 | 3 blynedd | ✓ |
| F652 | Eigioneg Ddaearegol | MSci (Anrh) | 128-152 | 4 blynedd | ✓ |
| F62F | Eigioneg Ddaearegol (gyda Blwyddyn Sylfaen) | BSc (Anrh) | 48-112 | 4 blynedd | ✓ |
| F734 | Eigioneg Ffisegol | MSci (Anrh) | 128-152 | 4 blynedd | ✓ |
| F700 | Gwyddorau'r Eigion | BSc (Anrh) | 112-128 | 3 blynedd | ✓ |
| F715 | Gwyddor Morol a Chadwraeth | BSc (Anrh) | 112-128 | 3 blynedd | ✓ |
| F7F6 | Yr Eigion a Geoffiseg | BSc (Anrh) | 120-144 | 3 blynedd | ✓ |

| Cod | Teitl y Rhaglen | Cymhwyster | Tariff Dangosol (2027) | Hyd y cwrs (Bl) | Blwyddyn Lleoliad / Profiad Rhyngwladol ychwanegol (dewisol) |
|---|---|---|---|---|---|
| **Hanes ac Archaeoleg** | | | | | |
| V100 | Hanes | BA (Anrh) | 104-128 | 3 blynedd | ✓ |
| V10F | Hanes (gyda Blwyddyn Sylfaen) | BA (Anrh) | 48-96 | 4 blynedd | ✓ |
| V103 | Hanes ac Archaeoleg | BA (Anrh) | 104-128 | 3 blynedd | ✓ |
| VW13 | Hanes a Cherddoriaeth | BA (Anrh) | 104-128 | 3 blynedd | ✓ |
| 3QV1 | Hanes a Llenyddiaeth Saesneg | BA (Anrh) | 104-128 | 3 blynedd | ✓ |
| V140 | Hanes Modern a Chyfoes | BA (Anrh) | 104-128 | 3 blynedd | ✓ |
| **Iaith Saesneg ac Ieithyddiaeth** | | | | | |
| QQC3 | Iaith Saesneg a Llenyddiaeth Saesneg | BA (Anrh) | 104-128 | 3 blynedd | ✓ |
| QQCF | Iaith Saesneg a Llenyddiaeth Saesneg (gyda Blwyddyn Sylfaen) | BA (Anrh) | 48-96 | 4 blynedd | ✓ |
| Q3WL | Iaith Saesneg gydag Ysgrifennu Creadigol | BA (Anrh) | 104-128 | 3 blynedd | ✓ |
| Q1C8 | Ieithyddiaeth a Seicoleg | BA (Anrh) | 104-128 | 3 blynedd | ✓ |
| Q140 | Ieithyddiaeth ac Iaith Saesneg | BA (Anrh) | 104-128 | 3 blynedd | ✓ |
| Q3R8 | Ieithyddiaeth ac Ieithoedd Modern | BA (Anrh) | 104-128 | 4 blynedd | ✓ |

| Cod | Teitl y Rhaglen | Cymhwyster | Tariff Dangosol (2027) | Hyd y cwrs (BI) | Blwyddyn Lleoliad / Profiad Rhyngwladol ychwanegol (dewisol) |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ieithoedd Modern[4]** | | | | | |
| R817 | Astudiaethau Ieithoedd Modern | BA (Anrh) | 104-128 | 3 blynedd | ✓ |
| R800 | Ieithoedd Modern | BA (Anrh) | 104-128 | 4 blynedd | ✓ |
| R808 | Ieithoedd Modern (gyda Blwyddyn Sylfaen) | BA (Anrh) | 48-96 | 5 mlynedd | ✓ |
| R805 | Ieithoedd Modern a Chymraeg | BA (Anrh) | 104-128 | 4 blynedd | ✓ |
| R818 | Ieithoedd Modern a Ffilm | BA (Anrh) | 104-128 | 4 blynedd | ✓ |
| R804 | Ieithoedd Modern a Hanes | BA (Anrh) | 104-128 | 4 blynedd | ✓ |
| R801 | Ieithoedd Modern a Llenyddiaeth Saesneg | BA (Anrh) | 104-128 | 4 blynedd | ✓ |
| R807 | Ieithoedd Modern a Throseddeg a Chyfiawnder Troseddol | BA (Anrh) | 104-128 | 4 blynedd | ✓ |
| R820 | Ieithoedd Modern a'r Cyfryngau | BA (Anrh) | 104-128 | 4 blynedd | ✓ |
| R806 | Ieithoedd Modern ac Athroniaeth, Moeseg a Chrefydd | BA (Anrh) | 104-128 | 4 blynedd | ✓ |
| **Llenyddiaeth Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol** | | | | | |
| 8H25 | Llenyddiaeth Saesneg | BA (Anrh) | 104-128 | 3 blynedd | ✓ |
| 2P17 | Llenyddiaeth Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol | BA (Anrh) | 104-128 | 3 blynedd | ✓ |
| 32N6 | Llenyddiaeth Saesneg a Cherddoriaeth | BA (Anrh) | 104-128 | 3 blynedd | ✓ |
| W801 | Ysgrifennu Creadigol | BA (Anrh) | 104-128 | 3 blynedd | ✓ |
| W8R8 | Ysgrifennu Creadigol ac Ieithoedd Modern | BA (Anrh) | 104-128 | 4 blynedd | ✓ |

| Cod | Teitl y Rhaglen | Cymhwyster | Tariff Dangosol (2027) | Hyd y cwrs (BI) | Blwyddyn Lleoliad / Profiad Rhyngwladol ychwanegol (dewisol) |
|---|---|---|---|---|---|
| **Meddygaeth** | | | | | |
| A100 | Meddygaeth (BMBS) | MBBCh | Gweler y wefan | 5 mlynedd | |
| A101 | Meddygaeth: Mynediad i Raddedigion (BMBS) | MBBCh | Gweler y wefan | 4 blynedd | |
| A103 | Porth i Feddygaeth | MBBCh | Gweler y wefan | 6 blynedd | |
| **Peirianneg a Dylunio Cynnyrch** | | | | | |
| H607 | Peirianneg | BEng (Anrh) | 120-136 | 3 blynedd | ✓ |
| H608 | Peirianneg | MEng (Anrh) | 128-144 | 4 blynedd | ✓ |
| H60F | Peirianneg (gyda Blwyddyn Sylfaen) | BEng (Anrh) | 48-112 | 4 blynedd | ✓ |
| H611 | Peirianneg Electronig | BSc (Anrh) | 104-120 | 3 blynedd | ✓ |
| H610 | Peirianneg Electronig | BEng (Anrh) | 120-136 | 3 blynedd | ✓ |
| H601 | Peirianneg Electronig | MEng (Anrh) | 128-144 | 4 blynedd | ✓ |
| H61F | Peirianneg Electronig (gyda Blwyddyn Sylfaen) | BEng (Anrh) | 48-112 | 4 blynedd | ✓ |
| H661 | Peirianneg Rheolaeth ac Offeryniaeth | MEng (Anrh) | 128-144 | 4 blynedd | ✓ |
| H612 | Peirianneg Systemau Cyfrifiadurol | BEng (Anrh) | 120-136 | 3 blynedd | ✓ |
| H617 | Peirianneg Systemau Cyfrifiadurol | MEng (Anrh) | 128-144 | 4 blynedd | ✓ |
| W240 | Dylunio Cynnyrch (cwrs cyfrwng Saesneg) | BSc (Anrh) | 96-128 | 3 blynedd | ✓ |
| W241 | Dylunio Cynnyrch (cwrs cyfrwng Cymraeg) | BSc (Anrh) | 96-128 | 3 blynedd | ✓ |

## Seicoleg

| Cod | Teitl y Rhaglen | Cymhwyster | Tariff Dangosol (2027) | Hyd y cwrs (BI) | Blwyddyn Lleoliad / Profiad Rhyngwladol ychwanegol (dewisol) |
|---|---|---|---|---|---|
| C800 | Seicoleg | BSc (Anrh) | 112-136 | 3 blynedd | ✓ |
| C80F | Seicoleg (gyda Blwyddyn Sylfaen) | BSc (Anrh) | 64-104 | 4 blynedd | ✓ |
| C801 | Seicoleg gyda Niwroseicoleg | BSc (Anrh) | 112-136 | 3 blynedd | ✓ |
| C880 | Seicoleg gyda Seicoleg Glinigol ac Iechyd | BSc (Anrh) | 112-136 | 3 blynedd | ✓ |
| C813 | Seicoleg gyda Seicoleg Fforensig | BSc (Anrh) | 112-136 | 3 blynedd | ✓ |

## Swoleg

| Cod | Teitl y Rhaglen | Cymhwyster | Tariff Dangosol (2027) | Hyd y cwrs (BI) | Blwyddyn Lleoliad / Profiad Rhyngwladol ychwanegol (dewisol) |
|---|---|---|---|---|---|
| C300 | Swoleg | BSc (Anrh) | 112-136 | 3 blynedd | ✓ |
| C301 | Swoleg | MZool (Anrh) | 128-144 | 4 blynedd | ✓ |
| C30F | Swoleg (gyda Blwyddyn Sylfaen) | BSc (Anrh) | 64-112 | 4 blynedd | ✓ |
| C330 | Swoleg gydag Adareg | BSc (Anrh) | 112-136 | 3 blynedd | ✓ |
| C334 | Swoleg gydag Adareg | MZool (Anrh) | 128-144 | 4 blynedd | ✓ |
| C3L2 | Swoleg gyda Chadwraeth | BSc (Anrh) | 112-136 | 3 blynedd | ✓ |
| CD34 | Swoleg gyda Chadwraeth | MZool (Anrh) | 128-144 | 4 blynedd | ✓ |
| C304 | Swoleg gyda Herpetoleg | BSc (Anrh) | 112-136 | 3 blynedd | ✓ |
| C303 | Swoleg gyda Herpetoleg | MZool (Anrh) | 128-144 | 4 blynedd | ✓ |
| C329 | Swoleg gyda Phrimatoleg | BSc (Anrh) | 112-136 | 3 blynedd | ✓ |
| C333 | Swoleg gyda Phrimatoleg | MZool (Anrh) | 128-144 | 4 blynedd | ✓ |
| C335 | Swoleg gyda Rheolaeth Anifeiliaid | BSc (Anrh) | 112-136 | 3 blynedd | ✓ |

## Swoleg

| Cod | Teitl y Rhaglen | Cymhwyster | Tariff Dangosol (2027) | Hyd y cwrs (Bl) | Blwyddyn Lleoliad / Profiad Rhyngwladol ychwanegol (dewisol) |
|---|---|---|---|---|---|
| C336 | Swoleg gyda Rheolaeth Anifeiliaid | MZool (Anrh) | 128-144 | 4 blynedd | ✓ |
| C350 | Swoleg gyda Swoleg Môr | BSc (Anrh) | 112-136 | 3 blynedd | ✓ |
| C353 | Swoleg gyda Swoleg Môr | MZool (Anrh) | 128-144 | 4 blynedd | ✓ |
| C3D3 | Swoleg gydag Ymddygiad Anifeiliaid | BSc (Anrh) | 112-136 | 3 blynedd | ✓ |
| C302 | Swoleg gydag Ymddygiad Anifeiliaid | MZool (Anrh) | 128-144 | 4 blynedd | ✓ |

## Troseddeg, Plismona a Gwyddorau Cymdeithas

| Cod | Teitl y Rhaglen | Cymhwyster | Tariff Dangosol (2027) | Hyd y cwrs (Bl) | Blwyddyn Lleoliad / Profiad Rhyngwladol ychwanegol (dewisol) |
|---|---|---|---|---|---|
| V5V6 | Athroniaeth, Moeseg a Chrefydd | BA (Anrh) | 104-128 | 3 blynedd | ✓ |
| L300 | Cymdeithaseg | BA (Anrh) | 104-128 | 3 blynedd | ✓ |
| LL3N | Cymdeithaseg (gyda Blwyddyn Sylfaen) | BA (Anrh) | 48-96 | 4 blynedd | ✓ |
| L30F | Cymdeithaseg a Throseddeg a Chyfiawnder Troseddol | BA (Anrh) | 104-128 | 3 blynedd | ✓ |
| LM39 | Gwleidyddiaeth | BA (Anrh) | 104-128 | 3 blynedd | ✓ |
| L200 | Gwleidyddiaeth (gyda Blwyddyn Sylfaen) | BA (Anrh) | 48-96 | 4 blynedd | ✓ |
| L20F | Gwyddor Cymdeithas (cwrs cyfrwng Cymraeg) | BA (Anrh) | 104-128 | 3 blynedd | ✓ |
| L436 | Plismona Proffesiynol | BSc (Anrh) | 96-112 | 3 blynedd | |
| M930 | Troseddeg a Chyfiawnder Troseddol | BA (Anrh) | 104-128 | 3 blynedd | ✓ |
| L3C8 | Troseddeg a Seicoleg | BA (Anrh) | 104-128 | 3 blynedd | ✓ |

| Cod | Teitl y Rhaglen | Cymhwyster | Tariff Dangosol (2027) | Hyd y cwrs (Bl) | Blwyddyn Lleoliad / Profiad Rhyngwladol ychwanegol (dewisol) |
|---|---|---|---|---|---|

## Y Gyfraith

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| M212 | Cyfraith Droseddol | LLB (Anrh) | 112-136 | 3 blynedd | ✓ |
| M100 | Y Gyfraith | LLB (Anrh) | 112-136 | 3 blynedd | ✓ |
| M101 | Y Gyfraith (Rhaglen Garlam 2 flynedd) | LLB (Anrh) | Gradd baglor 2.ii (neu gyfwerth) mewn pwnc arall | 2 flynedd | |
| M10F | Y Gyfraith (gyda Blwyddyn Sylfaen) | LLB (Hons) | 64-104 | 4 blynedd | ✓ |
| M1Q5 | Y Gyfraith gyda Chymraeg | LLB (Anrh) | 112-136 | 3 blynedd | ✓ |
| M1L2 | Y Gyfraith gyda Gwleidyddiaeth | LLB (Anrh) | 112-136 | 3 blynedd | ✓ |
| M1R8 | Y Gyfraith gydag Ieithoedd Modern | LLB (Anrh) | 112-136 | 3 blynedd | ✓ |
| M1C8 | Y Gyfraith gyda Seicoleg | LLB (Anrh) | 112-136 | 3 blynedd | ✓ |
| M1M9 | Y Gyfraith gyda Throseddeg | LLB (Anrh) | 112-136 | 3 blynedd | ✓ |

1 Cwrs ar gyfer siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf ac ail iaith yw hwn - gweler y wefan am fanylion pellach.

2 Llawn-amser, ar y campws. Mae’n bosib y bydd dulliau eraill o gyflwyno, gan gynnwys hyblygrwydd o ran sut a ble rwyt ti’n astudio, dysgu rhan-amser a dysgu o bell ar gael ar gyfer y cwrs hwn - gweler y wefan am fanylion.

3 Lleoliad: Campws Wrecsam.

4 Llwybr iaith i ddechreuwyr ar gael - gweler y wefan am y dewis llawn.

MAE DYFODOL BUSNES YN
**DECHRAU YMA - GYDA THI**

# YSGOL FUSNES ALBERT GUBAY
## YM MHRIFYSGOL BANGOR

**Cenhadaeth Ysgol Fusnes Albert Gubay yw grymuso'r genhedlaeth nesaf o arweinwyr ac entrepreneuriaid, fel ti, i greu dyfodol mwy disglair a chyfrifol.**

**Byddwn yn dy gefnogi i feithrin y wybodaeth, y sgiliau a'r hyder sydd eu hangen arnat i ffynnu mewn byd sy'n newid yn gyflym.**







# BETH ALLET EI DDISGWYL:

- Addysgu ysbrydoledig sy’n seiliedig ar yr ymchwil diweddaraf a dealltwriaeth am fusnes yn y byd go iawn
- Cyfleoedd i weithio gyda chyflogwyr, gan gynnwys partneriaethau diwydiant, lleoliadau a phrojectau busnes byw
- Meddylfryd strategol, wedi ei ddatblygu trwy ddysgu dan arweiniad heriau a rhaglenni sy'n canolbwyntio ar arloesi
- Cyfleusterau dysgu o ansawdd uchel, gan gynnwys ystafell fasnachu ariannol o'r radd flaenaf, lle byddi di'n gweithio gyda data marchnad go iawn
- Cyfleoedd i weithio ar brojectau ymgynghoriaeth ledled y Deyrnas Unedig, gan roi eich gwybodaeth yn nwylo'r unigolion hynny sy'n gyrru'r economi

**I wneud cais am le ar gwrs, cer i UCAS.com a dilyn y camau syml sydd yno.**

# SUT I WNEUD CAIS





# TELERAU AC AMODAU

**Mae Prifysgol Bangor yn gwneud pob ymdrech resymol i sicrhau bod y wybodaeth a geir yn yr arweinlyfr cyrsiau hwn yn gywir ar adeg ei argraffu - Chwefror 2025. I weld y telerau a'r amodau llawn, cer i:**

**bangor.ac.uk/cy/prosbectws/telerauacamodau**

PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

# Dy Ddyfodol ar Waith

Prifysgol Bangor
Bangor, Gwynedd, LL57 2DG

Mae Prifysgol Bangor yn Elusen Gofrestredig: Rhif 1141565

www.bangor.ac.uk